Rhifyn 30 – Chwefror 2018




# Newyddion ABER

*Chwith i'r Dde: Dan Steward, Aelod Staff Rhwydwaith LGBT; Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor; Ruth Fowler, Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb a Bob McIntyre, Aelod Staff Rhwydwaith LGBT yn dathlu llwyddiant Prifysgol Aberystwyth yn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.*

## Prifysgol Aberystwyth yng 100 uchaf Stonewall

### Mae'r Brifysgol ymysg 100 cyflogwr gorau'r DU am gynhwysoldeb yn y gweithle, yn ôl y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle 2018.

Cyhoeddir Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle gan Stonewall a chaiff ei ddisgrifio fel y "rhestr ddiffiniol o'r cyflogwyr gorau o ran staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol."

Bellach yn ei bedwaredd blwyddyn ar ddeg, derbyniodd rhifyn diweddaraf y Mynegai gyflwyniadau gan fwy na 430 o fusnesau a sefydliadau yn y DU, a mwy na 92,000 o ymatebion gan gyflogedigion.


Dringodd Prifysgol Aberystwyth 60 lle i safle 56 yn y DU a'r 9fed yng Nghymru. Daw hyn yn sgìl cynnydd o 121 safle yn 2017.

Yn ogystal, Aberystwyth yw'r 8fed brifysgol orau yn y DU, a'r 3edd yng Nghymru.

Dywedodd Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, Yr Athro Elizabeth Treasure: "Yma yn Aber, rydym yn meithrin amgylchedd gynhwysol a chroesawgar sydd yn cydnabod ac yn dathlu amrywioldeb ar ein campws ac yn y gymuned. Mae'r diwylliant o barch yn cael ei adlewyrchu yn ein safle diweddaraf ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, a hoffwn longyfarch cydweithwyr sydd wedi gwneud hyn yn bosibl drwy eu hymroddiad tuag at gydraddoldeb a chynwysoldeb yn y gweithle."

Dywedodd Ruth Fowler, Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb Prifysgol Aberystwyth: "Mae'n wych o beth bod Prifysgol Aberystwyth wedi dringo eto eleni ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall a bellach yn safle 56 yn y DU ar draws pob sector. Mae'n dangos fod Aberystwyth yn lle ffantastig i fyw a gweithio, pwy bynnag y'ch chi. Mae canlyniad hwn hefyd yn tanlinellu bod Prifysgol Aberystwyth wir yn un o'r llefydd mwyaf goddefgar, blaengar, rhyddfrydig a chynhwysol i astudio a byw yn y DU."

*Parhau ar dudalen 3*

4 Mae'r NSS wedi dechrau

6 Golwg ar... Ddesg Gwasanaethau TG

8 Yn ogystal â'm swydd o ddydd i ddydd

12 Wythnos Un Byd 2018

13 O Aberfan i Aberystwyth


Cyhoeddir Newyddion ABER gan y Tîm **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus,** Prifysgol Aberystwyth.
**Ffôn:** 01970 622578
**E-bost:** cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Aber ar gael ym mis **Ebrill**. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 5 Mawrth**.



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Ffit Rhwydd

## Ffitrwydd Grŵp

### DYDD LLUN

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 09.15 - 10.00 | Sbin y Bore |
| 12.00 - 13.00 | Sbin Sbortif |
| 12.15 -13.00 | HIIT |
| 13.10 - 13.55 | Erobeg |
| 14.00 - 15.30 | Ragarweiniad i Ioga |
| 17.00 - 19.00 | Ioga Ashtanga |
| 17.30 -18.30 | Erogamu |
| 17.45 - 18.30 | Bryniau Las |
| 18.30 - 19.30 | Pilates |
| 19.00 -20.30 | Ioga Hatha |

### DYDD MAWRTH

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 12.10 - 12.55 | Bryniau Las |
| 12.15 - 13.00 | Pilates Gofal Cefn |
| 13.10 - 13.55 | Nerth Craidd |
| 13.15 - 14.00 | Bryniau Las |
| 17.30 - 18.30 | Ymarfer Cylchol Aber |
| 17.30 - 18.30 | Erogamu |
| 17.30 - 18.15 | Sbin i Ddechreuwyr |
| 18.30 - 19.30 | Bodyfit |
| 18:30 - 19:30 | Zumba |
| 19.00 - 20.00 | Nofio Triathlon |

### DYDD MERCHER

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 07.30 - 08.15 | Sbin y Bore Cynnar |
| 09.15 - 10.00 | Sbin i Ddechreuwyr |
| 09.30 - 10.15 | Ymarfer Ôl-enedigol |
| 12.10 - 13.00 | Bryniau Las |
| 12.15 -13.00 | Bodyfit |
| 13.10 - 13.55 | Pilates ar y Bêl |
| 17.30 - 18.15 | HIIT |
| 17.30 - 18.15 | Ymarfer Dumbbell |
| 18.15 - 19.15 | Pilates |
| 18.30 - 19.15 | Ymarfer Acwa |
| 18.30 - 19.30 | Boot Camp |
| 19.30 - 20.30 | Ioga i Bawb |
| 20.30 - 21.30 | Ffit Ddawns Tywyll |

### DYDD IAU

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 07.15 - 08.00 | Nofio Triathlon |
| 12.15 - 13.00 | Dechrau Nerth Craidd |
| 12.15 - 13.15 | Bryniau Las |
| 13.10 - 13.55 | Pilates |
| 16.15 - 17.00 | Ffit Ddawns Ifanc* |
| 17.30 - 18.30 | Ymarfer Cylchol Aber |
| 17.30 - 18.30 | Erobeg |
| 17.30 - 18.15 | Dechrau Sbinio |
| 18:30 - 19:30 | Zumba |
| 18.30 - 19.30 | Bodyfit |

### DYDD GWENER

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 07.30 - 08.15 | Sbin y Bore Cynnar |
| 10.30 - 11.15 | Ymarfer Acwa |
| 12.15 - 13.00 | Ymarfer Cylchred |
| 13.10 - 13.55 | Ymarfer Dumbbell |
| 16.00 - 17.00 | Ioga Nerthol |
| 17.00 - 18.30 | Ioga i Bawb |
| 17.30 - 18.15 | HIIT |
| 18.00 - 18.45 | Bryniau Las |
| 18.30 - 19.30 | Zumba a Siapio |

### DYDD SADWRN

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 09.05 - 10.05 | Bryniau Las |
| 09.30 - 10.30 | Bodyfit |
| 10.45 - 11.45 | Pilates |

### DYDD SUL

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 09.05 - 09.50 | Sbin y Bore Cynnar |
| 11.00 - 12.00 | Zumba |

*Bydd yr holl ddosbarthiadau yn gorffen 5 munud cyn yr amser a nodwyd i ganiatáu amser i newid drosodd rhwng sesiynau*

*I weld pwy sy'n dysgu sesiwn ac i gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gweddalennau*

*Mae'r tîm rheoli'n cadw'r hawl i newid y rhaglen ar fyr rybudd*

*Ffôn: 622280*

*Ebost: sports@aber.ac.uk*

*www.aber.ac.uk/cy/sportscentre*

Sport ABER

## Colofn yr Is-Ganghellor



Mae'r Flwyddyn Newydd fel arfer yn adeg ar gyfer addunedau ac ymegnïo o'r newydd. Dwi ddim yn un am wneud gormod o addunedau newydd ddechrau Ionawr ac mae'n well gennyf yn hytrach fyfyrio ar fy mwriadau drwy gydol y flwyddyn a'u hadolygu. Fel unigolyn, byddaf yn parhau â'm gwersi Cymraeg gan anelu i gwblhau'r lefel nesaf ac mae'n rhaid imi geisio gwneud mwy o ymarfer corff. O ran y sefydliad, fy nod ar gyfer 2018 yw parhau i lywio'r Brifysgol ar lwybr tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Ni fydd yn siwrnai hawdd i neb ohonom ac rwy'n gwybod bod hwn yn gyfnod anodd iawn i'r cydweithwyr y gall eu swyddi gael eu heffeithio. Yn anffodus, nid oes dianc rhag y targedau arbedion sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd ond mewn cyfnod o newid rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd yr holl gamau angenrheidiol wedi'u cymryd erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon wrth inni ail-lunio'r Brifysgol ar gyfer heriau'r 21ain ganrif.

Daeth y Flwyddyn Newydd ag ambell newid ar frig ein fframwaith Llywodraethu. Ar ôl deng mlynedd, rhoddodd Syr Emyr Jones Parry y gorau i'w waith fel Canghellor y Brifysgol a Chadeirydd y Cyngor, ac mae'r swydd bellach yn ddwy swydd ar wahân. Mae cyn-Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, wedi ymgymryd â swydd anrhydeddus y Canghellor; bydd yn traddodi ei ddarlith gyhoeddus gyntaf yn Aberystwyth ar 22 Mawrth. Cadeirydd newydd y Cyngor ers 1 Ionawr 2018 yw Dr Emyr Roberts, y bydd rhai ohonoch yn gyfarwydd ag ef o'i gyfnod yn aelod o'r Cyngor neu gyn-fyfyriwr yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Rwy'n sicr y byddwch yn ymuno â mi i'w croesawu i'w swyddi ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r ddau er budd y Brifysgol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Cynllun Strategol newydd yn 2018, a fydd yn mynd â ni heibio ein 150fed pen-blwydd i 2023. Hoffwn ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad a gallaf eich sicrhau fy mod i wedi darllen pob sylw a wnaed. Nid yw pob awgrym wedi'i ymgorffori yn y ddogfen derfynol, sy'n gymharol fyr, ond bu'r adborth yn gymorth wrth lunio'r cynllun, yn ogystal â'r polisïau manylach sy'n sail i'w egwyddorion. Fel y gwyddom, gall amgylchiadau newid a gall llawer ddigwydd mewn pum mlynedd. Yr hyn rydym wedi ceisio ei wneud yn y Cynllun Strategol hwn yw amlinellu cyfeiriad teithio bras. Cwmpawd ydyw, os dymunwch, y gallwn ei ddefnyddio i'n harwain a'n cyfeirio wrth lywio drwy'r manylion.

Bydd dysgu Semester 2 wedi dechrau erbyn i'r golofn hon ymddangos a bydd yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol diweddaraf yn ei anterth. Drwy'r asesiadau a'r adborth i ansawdd dysgu ac Undeb y Myfyrwyr, mae'r data a dderbyniwn o'r holiaduron blynyddol hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cynnig profiad prifysgol eithriadol i'n myfyrwyr – felly, da chi, anogwch israddedigion y flwyddyn olaf i gymryd rhan.

Gwyddom o'r adborth ar draws y sector bod adnoddau llyfrgell a gwybodaeth yn bwysig iawn i fodlonrwydd myfyrwyr, ac wrth eu recriwtio. Roedd hi'n bleser felly i agor llawr gwaelod Llyfrgell Hugh Owen ar ei newydd wedd ar 8 Ionawr. Dyma'r gwaith adnewyddu mawr cyntaf ers i'r llyfrgell agor yn y 1970au a hyd yn oed pan fo'r esgid fach yn gwasgu, mae'n bwysig ein bod yn dal ati i fuddsoddi yn ein hadnoddau ac yn y stâd ar gyfer y dyfodol. Diolch i bawb a fu'n arwain y prosiect, a diolch i gydweithwyr ar draws y Brifysgol am eich ymroddiad parhaus i ragoriaeth dysgu academaidd ac ymchwil, a darpariaeth gwasanaethau proffesiynol.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
Is-Ganghellor

*Parhau o dudalen 1*

Dywedodd Darren Towers, Cyfarwyddwr Gweithredol Stonewall: "Mae Prifysgol Aberystwyth a phob un sydd wedi cyrraedd y 100 Cyflogwr Gorau wedi gwneud gwaith ffantastig. Mae cymryd rhan yn ein Mynegai yn dangos gwir ymroddiad i ddeall a hyrwyddo cydraddoldeb LGBT. Eleni, am y tro cyntaf, mae'r Mynegai wedi edrych ar beth mae cyflogwyr wedi ei wneud ar gyfer cydraddoldeb i bobl trawsrywiol yn y gweithle. Mae'r gwaith hwn yn allweddol. Yn ddiweddar fe gyhoeddon ni LGBT in Britain: Trans Report sydd yn ddangos yr anghydraddoldeb dwfn sydd yn wynebu pobl drawsrywiol ym Mhrydain heddiw. Mae hanner pobl drawsrywiol wedi penderfynu peidio rhannu hynny yn y gweithle rhag cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae rhaid i hyn newid ac mae'n galonogol gweld gymaint o sefydliadau yn ymrwymo i ymdrin â phobl drawsrywiol mewn modd cyfartal. Gyda'u cefnogaeth a'u gwaith caled gallwn greu byd lle mae croeso i weithwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol."

Mae rhwydwaith LGBT Prifysgol Aberystwyth yn cyfarfod unwaith y mis a chynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 23 Chwefror 2018 at 4.30yp yng nghaffi Canolfan Celfyddydau.

Mae manylion pellach i'w cael ar wefan Rhwydwaith LGBT Prifysgol Aberystwyth neu gan Ruth Fowler ruf@aber.ac.uk.

## Rhaglen Modelau Rôl Deurywiol

Mae'r Brifysgol yn croesawu Stonewall ar ddydd Mercher 21 Mawrth i gyflwyno rhaglen Modelau Rôl i ystyried beth yw ystyr bod yn fodel rôl deurywiol cyflawn a chynhwysol.

Mae'r rhaglen rymuso undydd hon yn rhad ac am ddim, a bydd yn galluogi pobl ddeurywiol i wneud y canlynol:

- Myfyrio ar eu profiadau personol a magu hyder er mwyn dod i'r gwaith fel nhw eu hunain
- Sefydlu ffyrdd ymarferol o gamu i'r bwlch fel model rôl gweladwy
- Dathlu gwahaniaeth, gwella cynhwysiant a bod yn fwy gweladwy

I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu lle ewch i: web.stonewall.org.uk/public/event/eventBooking.aspx?id=EVT12637

Mae 'Deurywiol' yn derm ambarél, ac mae'r rhaglen hon yn addas i unrhyw un sy'n dod o dan yr ambarél 'deurywiol'.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: ffion.grundy@stonewall.cymru / katie.fox@stonewall.cymru / 029 2034 7004

# Ffilm o Aber yn cipio gwobr



## Mae ffilm ddogfen arsylwol gan fyfyrwraig o Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn un o bum enillydd yng Ngwobrau Teledu Myfyrwyr y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghymru 2018.

*Dwy Chwaer a Brawd* gan Meleri Morgan yw enillydd categori Ffeithiol y Gwobrau a gafodd eu cynnal yng Nghaerdydd 31 Ionawr 2018.

Mae'r ffilm pry ar y wal, gafodd ei chynhyrchu fel prosiect blwyddyn olaf, yn bortread dadlennol o fywyd teuluol mewn pentref gwledig ar gyrion Aberystwyth sy'n cynnwys dwy chwaer a brawd yn eu nawdegau.

Hon yw'r ail wobr o bwys i'r ffilm gan iddi ennill y wobr am y Ffilm Ryngwladol Orau gan Fyfyriwr yng Ngŵyl Ffilmiau Dogfen Wexford, Iwerddon, ym Medi 2017.

Graddiodd Meleri mewn Drama ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn 2017 ac mae nawr yn dilyn cwrs TAR ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Wrth ymateb i'w llwyddiant diweddaraf, dywedodd Meleri: "Doeddwn i ddim yn disgwyl ennill o bell ffordd wedi gwylio'r enwebiadau eraill yn y noson wobrwyo. Rwy'n hynod falch o'r ffilm ac yn browd iawn fod yr holl waith caled wedi talu ffordd yn y pendraw.

"Mae'r ffilm yn agos iawn at fy nghalon i ac yn symbol o gyfnod yn fy mywyd lle datblygodd fy nghreadigrwydd yn fawr iawn. Mae fy nyled yn fawr iawn i fy narlithwyr Elin Morse, Kate Woodward ynghyd â Gareth Llŷr Evans (ochr Ddrama) am agor fy llygaid i fyd eang y celfyddydau a phwysigrwydd chwilio'r stori berffaith cyn dechrau ffilmio."

Dywedodd Elin Morse, Darlithydd mewn Cynyrchiadau Cyfryngol yn yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth: "Mae Dwy Chwaer a Brawd yn ffilm hyfryd a chrefftus sydd yn gofnod hynod werthfawr o fyd sydd yn prysur ddiflannu ac rydym fel Adran yn ymhyfrydu bod y Gymdeithas Deledu Frenhinol wedi cydnabod rhagoriaeth gwaith Meleri gyda'r wobr hon."

Mae llwyddiant Meleri eleni yn dilyn gwobrwyo Ashley Rhys Evans yn 2017 am ei gynhyrchiad *Aros* a enillodd y categori Drama.

# Mae'r NSS wedi dechrau

## Cafodd ymgyrch y Brifysgol i annog myfyrwyr i gwblhau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS) 2018 ei lansio ar 29 Ionawr yn Ail Ffair y Glas Undeb y Myfyrwyr.

Cynhelir yr arolwg, sydd ar agor i'r mwyafrif o israddedigion y flwyddyn olaf gan Ipsos Mori ar ran HEFCE. Mae'n un o'r ffyrdd pwysicaf o gasglu adborth gan ein myfyrwyr am eu profiad o astudio yma.

Y llynedd roedd ein sgôr cyffredinol yn 91% - saith pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU o 84%. Rydym hefyd yn ail yn y DU am Asesu ac Adborth.

Mae myfyrwyr sy'n gymwys wedi derbyn e-bost gan Ipsos-Mori yn eu gwahodd i gwblhau'r arolwg ar-lein erbyn 30 Ebrill 2018.

Fodd bynnag, mae myfyrwyr yn aml yn ymateb yn well i negeseuon wrth bobl maen nhw'n eu hadnabod. Felly, os ydych yn diwtor, darlithydd neu yn cefnogi myfyrwyr, yna codwch ymwybyddiaeth o'r arolwg os gwelwch yn dda ac annog eich myfyrwyr i roi adborth gonest a dienw am eu profiadau.

Fel rhan o ymgyrch hyrwyddo'r Brifysgol, bydd cyfle i fyfyrwyr cymwys sy'n cwblhau'r arolwg arlein cyn 28 Chwefror 2018 i ennill gwobr. Mae 100 o dalebau £10 Amazon ar gael i'w hennill.

Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol. Mae @Aberquack yn werth ei ddilyn ar Twitter. Rhannwch, hoffwch a thagiwch gan ddefnyddio'r hashnod #AberNSS i gynnal y momentwm.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr NSS ym Mhrifysgol Aberystwyth, cysylltwch â Debbie Prysor, dep10@aber.ac.uk

Os oes gan eich myfyrwyr unrhyw gwestiynau, cyfeiriwch nhw at www.thestudentsurvey.com



# Myfyriwr Swoleg yn ennill cystadleuaeth ffotograffiaeth

Mae Tina Kramaric, sy'n fyfyriwr Swoleg yn y flwyddyn gyntaf, wedi cael ei dewis yn un o enillwyr cystadleuaeth ffotograffiaeth Cyngor y DU ar gyfer Materion Myfyrwyr Rhyngwladol (UKCISA) 2018.



Trefnwyd y gystadleuaeth fel rhan o ddathliadau pen-blwydd UKCISA yn 50 oed, a'r nod oedd dangos cyffro, cyflawniadau ac effaith astudio yn y DU; derbyniwyd mwy na 150 o luniau oddi wrth fyfyrwyr rhyngwladol.

Mae'r lluniau buddugol wedi cael eu defnyddio yng nghalendr 2018 UKCISA, a dewiswyd llun Tina ar gyfer mis Chwefror. Derbyniodd pob enillydd docyn rhodd £50 o Amazon a gwahoddiad i dderbyniad pen-blwydd UKCISA yn 50 oed ym mis Hydref.

Disgrifiodd Tina, sy'n dod o Groatia, y diwrnod y tynnwyd ei llun 'Tonnau Newid / Waves of Change' ar lan môr Aberystwyth: "Yn ystod ail wythnos f'astudiaethau roeddwn yn dal i deimlo rywfaint ar goll ac es i'r traeth gyda fy nwy ffrind yn ystod Storm Ophelia. Wrth edrych ar y tonnau roeddwn i'n meddwl cymaint roeddwn i'n colli fy mam. Tynnwyd y llun wrth i don fy mwrw a'm gwlychu o'm corun i'm sawdl. Deuthum at fy hun a chwerthin am y tro cyntaf ers i mam adael yr wythnos flaenorol. Ar ôl hyn, roedd popeth yn teimlo'n well. Weithiau mae angen hwb fach ar bawb, ac efallai byddwch yn synnu'ch hun.

"Pan glywais fod fy llun wedi cael ei ddewis roeddwn wrth fy modd ac yn aros yn eiddgar i'r calendr gyrraedd. Mae'n braf gweld prosiect ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ac mae'r ymateb o'r Brifysgol wedi bod yn syfrdanol."

UKCISA yw corff cynghori cenedlaethol y DU sy'n cefnogi myfyrwyr rhyngwladol a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw. Mae'n darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar brofiad myfyrwyr rhyngwladol, o fewnfudo a ffïoedd i iechyd meddwl, ysgytwad diwylliannol a chyfeiriadedd.

**Nodyn gan y Golygydd:** *Llun ffantastig Tina. Nodyn i atgoffa'r darllenwyr y gall ewyn y môr a'r tonnau gynnwys darnau mân weithiau a gall fod yn beryglus, felly byddwch yn ofalus.*



Golwg ar …

# Ddesg Gwasanaethau TG

Y Ddesg Gwasanaeth TG yw'r man galw cyntaf i staff a myfyrwyr sydd eisiau cymorth gyda phroblemau yn ymwneud â TG. Roeddem eisiau dysgu mwy am eu gwaith o ddydd i ddydd a rhai o'r pethau mwyaf rhyfedd y gofynnwyd iddynt am gymorth yn eu cylch.  Dyma holi'r tîm:

**Disgrifiwch y gwaith wrth ddesg gwasanaethau TG**
Desg Gwasanaethau TG yw'r man cyswllt cyntaf am unrhyw ymholiadau i'r Gwasanaethau Gwybodaeth.

Rydym ni'n staffio'r desgiau cymorth yn llyfrgelloedd Hugh Owen a Thomas Parry, llinellau ffon y GG, (estyniad 2400), e-bost (is@aber.ac.uk a gg@aber.ac.uk) ynghyd â'r gwasanaethau sgwrs ar-lein, Trydar a Facebook.

Mae gennym bum aelod o staff llawn-amser, ac yn cael ein hategu gan dri myfyriwr cyfrifiadureg bob blwyddyn sydd ar leoliadau blwyddyn mewn diwydiant.

**Disgrifiwch ddiwrnod arferol yn eich gwaith wrth y ddesg gymorth**
Fel arfer, yfed coffi du yw'r peth cyntaf a wnawn ni ar ddechrau'r diwrnod, ond ar ôl hynny does dim y fath beth â diwrnod arferol.

Mae gofynion ein gwaith yn amrywio'n fawr gan ddibynnu yn bennaf ar adeg y flwyddyn a statws y gwasanaethu.

Mae'r wythnos groeso, wythnos cyflwyno traethodau hir ac wythnos Graddio i gyd yn dod â'u hymholiadau penodol eu hunain. Rhwng yr wythnosau hynny gallwn fod yn gwneud unrhyw beth - o ddatrys problemau system parlwr godro ar fferm y Brifysgol, i helpu i gyflwyno gwasanaethau argraffu newydd drwy'r campws.

**Sut mae'r gwaith wrth y ddesg gymorth wedi newid a datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf?**
Ein nod yw canolbwyntio ar blesio'r cwsmeriaid a chwilio am ffyrdd o ddatblygu ein gwasanaethau drwy awtomeiddio prosesau neu ddatblygu dulliau hunanwasanaethu.

Er enghraifft, wrth geisio cysylltu offer newydd â rhwydwaith y Brifysgol yn y gorffennol, bu'n rhaid chwilio am y cyfeiriad MAC perthnasol a chofrestru'r offer ar-lein. Rydym wedi awtomeiddio'r broses hon fel ei bod yn digwydd yn ddiffwdan heb yn wybod i'r defnyddiwr. Mae hyn yn arbed amser o ran gorfod dilyn cyfarwyddiadau neu ddod i'r ddesg gymorth.

**Oes rhywbeth am eich gwaith nad yw pobl yn gwybod amdano efallai?**
Rydym yn darparu nifer o wasanaethau nad ydych yn ymwybodol ohonynt efallai, gan gynnwys hyfforddi myfyrwyr sy'n cael Lwfans Myfyrwyr Anabl i'w helpu i ddefnyddio technolegau cynorthwyol, neu ysgrifennu a chynnal y Cwestiynau Cyffredin ar faterion cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn darparu'r gefnogaeth i'r holl beiriannau argraffu, yn ateb y rhan fwyaf o'r ymholiadau am wasanaeth ffonau'r Brifysgol (rhoi rhifau estyniad, newid rhifau, gosod lleisbost) ac yn cynorthwyo myfyrwyr sydd â gofynion unigol ar gyfer eu harholiadau.

**Beth yw'r camsyniadau mwyaf cyffredin sydd gan bobl am yr hyn mae'r ddesg gymorth yn ei wneud?**
Oherwydd yr enw, Gwasanaeth Gwybodaeth, tuedda pobl i feddwl yn aml mai gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth am bob dim ydym ni. Cawsom ymholiad ynglŷn ag oriau agor Tesco, amserlenni bysiau, a allwn ni argymell ciropodydd, a sut i fynd ati i olrhain achau hynafiad Cymreig. Yn gyffredinol, y mae'n haws chwilio am yr atebion ar Google na gorfod esbonio beth yn union rydym ni yn ei ddarparu!

**Pa elfen o waith y ddesg gymorth sy'n rhoi'r boddhad mwyaf?**
Elfen orau'r swydd yw pan lwyddwn ni i ddatrys ymholiadau anodd sy'n golygu bod rhaid inni ddod o hyd i ateb unswydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i rywun. Ein nod bob amser yw ceisio ddod o hyd i ateb, ni waeth pa mor astrus yw'r broblem. Mae'r agwedd honno wedi cyfrannu at y ffaith bod y Gwasanaethau Gwybodaeth wedi cael gwobr Rhagoriaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid a gydnabyddir gan y llywodraeth.



*Tîm Desg Gwasanaethau TG. Chwith i'r dde: Ryan Wonfor, Lewis Sweeney, Nate Slade, Mathew Jones, Alice Farnworth, Dylan Meredith, Mark Watt a Kyle Mould*

# Gweddnewid y Llyfrgell




*Torri'r rhuban i agor Lefel D Llyfrgell Hugh Owen ar ei newydd wedd yn swyddogol. O'r chwith i'r dde: Julie Hart (Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth), Yr Athro Elizabeth Treasure (Is-Ganghellor), Emma Beenham (Swyddog Materion Academaidd, Undeb Myfyrwyr Aberystwyth), Tim Davies (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth), Gwion Llwyd (Swyddog Diwylliant Cymreig Undeb Myfyrwyr Aberystwyth a Llywydd UMCA)*

## Agorwyd Lefel D Llyfrgell Hugh Owen ar Gampws Penglais ar ei newydd wedd yn swyddogol ar ddydd Llun 8 Ionawr, ac mae'n ofod sy'n diwallu anghenion myfyrwyr yr 21ain ganrif.

Mae'r gwaith ailwampio, a reolwyd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth, wedi diweddaru a chynyddu'r lle astudio sydd ar gael yn sylweddol, ac wedi gwella mynediad i adnoddau a gwasanaethau. Fel rhan o'r trawsnewidiad, ceir mwy o ofod astudio a gwell mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau.

Gosodwyd gwell systemau goleuadau, gwresogi ac awyru mwy effeithlon, ac mae'r addurniadau a'r celfi wedi'u creu yn arbennig ar gyfer y gofod.

Bellach gall myfyrwyr sy'n defnyddio Lefel D y llyfrgell ddefnyddio dwy ystafell astudio grŵp newydd, amrywiaeth o leoedd astudio gyda mynediad i bŵer a WiFi, mwy o seddi, peiriannau lluniaeth a deunydd ysgrifennu, a thoiledau ychwanegol niwtral o ran rhywedd. Mae prif fynedfa'r llyfrgell hefyd wedi symud i'r piazza, cartref Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac Undeb y Myfyrwyr.

*Yn wyneb rhai, fe gaeai'r gwynt – y ddôr*

*I ddysg ond, fel cerrynt,*

*Os bu'r drysau ar gau gynt,*

*Nid eir heddiw ond drwyddynt.*

Eurig Salisbury, 2018

Fel rhan o'r seremoni agoriadol, cyflwynodd y bardd Eurig Salisbury, darlithydd yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol a Bardd Plant Cymru (2011-2013), ei gerdd i ddathlu agoriad Lefel D.

Dywedodd Eurig: "Achubais ar y cyfle i ddarllen am Hugh Owen (1804–81), y dyn ei hun a roes ei enw i'r adeilad, a dysgu o'r newydd am ei waith caled a di-ildio dros addysg yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r fynedfa newydd – a symudwyd o ddannedd y gwynt ar flaen yr adeilad – yn borth hwylus at gyfoeth o lyfrau, a byddai'r hen Hugh, dwi'n amau, yn falch ohono."

## Golwg ar …Ddesg Gwasanaethau TG *...parhau*

Mae hefyd yn bleser o'r mwyaf ddod o hyd i ddogfen golledig, yn enwedig os yw hi'n ddrafft o draethawd hir neu lyfr- sy'n digwydd yn amlach nag y byddech yn disgwyl!

**Ydy pobl yn tueddu i ofyn yn union yr un cwestiynau dro ar ôl tro?**
Os oes problem sy'n codi'n rheolaidd, fe geisiwn ddod o hyd i ateb sy'n ei datrys a'i hatal rhag poeni pobl yn y dyfodol.

Er enghraifft, rydym wedi creu tudalen hunanwasanaeth er mwyn newid cyfrinair, tudalen llwytho meddalwedd am ddim, a dull o gofrestru cyfeiriad MAC yn awtomatig er mwyn i bobl ddatrys amryw o ymholiadau sylfaenol eu hunain, hyd yn oed ym mherfedd nos neu oddi ar y campws.

**Beth yw rhai o'r ceisiadau mwyaf rhyfedd yr ydych wedi eu cael i ddesg gymorth y Gwasanaethau Gwybodaeth?**
Cawsom alwad ffôn gan Albanwr unwaith am ei fod eisiau siarad â siaradwr Cymraeg go iawn. Roedd am glywed sut fywyd oedd gan siaradwr Cymraeg, a sut mae'r iaith yn cael ei defnyddio mewn ysgolion, ym myd gwaith ac ym mywyd bob dydd.

Ond mae'n debyg mai'r cais a gawsom drwy'r gwasanaeth sgwrs ar-lein yn gofyn am bapur tŷ bach i gael ei ddarparu ar frys i'r toiledau ar Lawr F yn y Llyfrgell yw ein hoff ymholiad. Yn ffodus i bawb, roedden ni'n gallu darparu'r yr hyn roedd ei angen!

Fel un o Swyddogion Cyswllt Ysgolion y Brifysgol, mae Dewi Phillips yn teithio ar hyd a lled y wlad yn ymweld ag ysgolion a cholegau yn mynychu arddangosfeydd UCAS a digwyddiadau gyrfaoedd, yn ogystal â threfnu diwrnodau blasu ar y campws a siarad â channoedd o fyfyrwyr am y llwybr i addysg uwch. Fodd bynnag, yn ogystal â'i swydd o ddydd i ddydd, mae Dewi yn ddyfarnwr i Undeb Rygbi Cymru:




# Yn ogystal â'm swydd o ddydd i ddydd…

**Pryd wnes di ddechrau dyfarnu gemau rygbi?**
Mae rygbi bob amser wedi bod yn rhan fawr o'm bywyd, a dechreuais ddyfarnu oddeutu 6 neu 7 mlynedd yn ôl. Am y tair blynedd diwethaf rwyf wedi bod yn dyfarnu yng Nghynghrair Cymru, ac rwyf hefyd wedi dyfarnu gemau yng Nghwpan Prydain ac Iwerddon, yn ogystal â bod yn Ddyfarnwr Cynorthwyol yng Nghwpan Pencampwyr Ewrop a chystadlaethau Pro14.  Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gael cyfle i ddyfarnu mewn lleoedd arbennig ac wedi cwrdd â phobl wych ar hyd y daith.

**A oes llawer o bwysau fel dyfarnwr?**
Wrth gwrs mae rhywfaint o bwysau wrth geisio gwneud y penderfyniadau iawn a chywir. Ond mae'n bwysig i ddyfarnwr gael empathi am y gêm yn ogystal â chael y cydbwysedd yn iawn. O ran pwysau, fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd rhaid cofio taw gêm o rygbi yw hi.

**A oes gennyt ti arferion ffitrwydd fel dyfarnwr, ac os felly, beth ydynt?**
Rydyn ni'n cael ein profi'n rheolaidd ar ffurf profion o'r enw 30-15




*Dewi fel Dyfarnwr Cynorthwyol mewn gêm Pro14 rhwng y Gweilch a'r Dreigiau ym mis Hydref 2017, gyda Dan Biggar (Gweilch) yn sgorio yn y gornel, a Gavin Henson (Dreigiau) yn ceisio'i daclo.*

Endurance Test ac mae lefelau ffitrwydd penodol y mae'n rhaid i ni eu cyrraedd er mwyn gallu dyfarnu ar lefel benodol.

Rydyn ni'n ffodus iawn o gael hyfforddwr Cryfder a Chyflyru sy'n ein hyfforddi bob pythefnos yn y Ganolfan Rhagoriaeth Genedlaethol y mae tîm Cymru'n hyfforddi ynddi.

Rwy'n treulio llawer o'm hamser y tu allan i'r gwaith yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol sydd fel ail gartref i mi!

Felly rwy'n hyfforddi bron bob dydd, heblaw ar ddiwrnod gêm.

**Beth yw'r uchafbwyntiau?**
Yn bendant rhai o'r lleoedd yr wyf wedi cael cyfle i ymweld â hwy fel dyfarnwr. Yn ddiweddar, roedd ymweld â Mosgo yn Rwsia yn uchafbwynt, ac roedd mynd i'r Eidal fel Dyfarnwr Cynorthwyol yn y Pro14 yn brofiad arbennig – lleoedd na fuaswn wedi ystyried ymweld â nhw pe na bawn i'n ddyfarnwr rygbi.

**Beth yw'r isafbwyntiau?**
Mae'r holl deithio ar y penwythnosau ynghyd â'r teithio rwy'n ei wneud fel rhan o'm swydd yn gallu bod yn drwm. Ond mae'n rhywbeth hollol wahanol i'm swydd o ddydd i ddydd, sy'n grêt.

**Ydy hi'n anodd dysgu rheolau'r gêm, sy'n dueddol o newid?**
Mae llawer o reolau mewn gêm o rygbi, ac mae'r llyfr rheolau yn gymharol eang. Weithiau rwy'n teimlo'n falch fy mod wedi astudio'r Gyfraith yma yn Aber! Fodd bynnag, fel dyfarnwr, mae'n bwysicach o bosibl gwybod pryd i beidio â chwythu'r chwiban, a deall beth mae'r chwaraewyr yn ceisio ei gyflawni hyn yn oed os ydynt ar ffiniau rheolau'r gêm.

**Oes gennyt ti unrhyw arferion ofergoelus ar ddiwrnod gêm fawr?**
Rwyf bob amser yn cael ffa pob ar dost i frecwast ac mae gen i hen chwiban a roddwyd i mi gan fy nhad-cu sy'n dod gyda mi i ble bynnag y byddaf yn dyfarnu. Mae gen i ddetholiad o ganeuon y byddaf bob amser yn eu chwarae ar fy iPod Shuffle wrth gynhesu i fyny cyn y gemau hefyd.

**Beth oedd dy gêm fwyaf cofiadwy?**
O ran bod yng nghanol y cae, yna dyfarnu Newcastle v Bath yn y Gwpan Eingl-Gymreig yw'r uchafbwynt hyd yma. Rwyf hefyd wedi dyfarnu yng Nghwpan Prydain ac Iwerddon dros y blynyddoedd diwethaf, gyda theithiau



*Llun: Gary Williams*

cofiadwy iawn i Ulster a Munster. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gael bod yn Ddyfarnwr Cynorthwyol yn y Pro14 ac yn fwy diweddar, y gêm fwyaf cofiadwy oedd rai wythnosau'n ôl fel Dyfarnwr Cynorthwyol mewn gêm Cwpan Pencampwyr Ewrop rhwng Munster a Castres. Roedd yn brofiad ffantastig gyda thros 23,000 o gefnogwyr ym Mharc Thomond.

**A oes gennyt ti hoff faes rygbi?**
Rwyf wedi bod yn ffodus iawn ac wedi dyfarnu mewn meysydd eiconig yma yng Nghymru megis Stadiwm y Mileniwm (neu Stadiwm Principality nawr), Heol Sardis ym Mhontypridd, Rodney Parade yng Nghasnewydd a Pharc yr Arfau yng Nghaerdydd.

Y tu allan i Gymru, mae meysydd arbennig megis Thomond Park yn Limerick, Musgrave Park yng Nghorc a Stadiwm Kingston Park yn Newcastle.

Un o fy hoff feysydd, fodd bynnag, yw Parc Eirias ym Mae Colwyn (a enwyd yn ddiweddar yn Stadiwm Zip World) lle mae RGC a thîm Cymru o dan 20 yn chwarae. Mae yna awyrgylch arbennig yno bobl amser, ynghyd ag adnoddau gwych. Mae wedi bod yn dda iawn i Ogledd Cymru.



*Llun: Matt Mackey / Press Eye*

**Beth yw dy stori orau fel dyfarnwr rygbi?**
Dywedodd rhywun stori wych wrthyf am ddyfarnwr a anghofiodd ei chwiban ar gyfer dyfarnu gêm un prynhawn. Heb unrhyw chwiban arall ar gael yn y maes, bu'n rhaid iddo fenthyg chwiban ci, felly bob tro yr oedd yn chwythu am gosb neu achos o daro'r bêl ymlaen, roedd tri chi yn rhedeg ar y cae!

**Beth yw'r peth cyntaf y byddi di'n ei wneud ar ôl dyfarnu gêm?**
Ar ôl yr holl ddefodau arferol, y peth cyntaf y byddaf yn ei wneud yw ffonio Dad, os nad ydy e wedi ffonio gyntaf i weld sut aeth pethau! Mam a Dad yw fy nghefnogwyr mwyaf, ond mae Dad yn ymwneud â gemau ei hun ym Mharc y Scarlets, felly nid yw'n cael llawer o gyfle i wylio, neu mae'n dewis peidio â gwylio! Y peth rhyfedd, fodd bynnag, yw bod amser ganddo i ddod i'r Iwerddon bob tro yr wyf wedi bod yn dyfarnu yno! Mae'n rhaid taw'r Guinness sy'n ei ddenu!

# Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth a Fforwm Penparcau Gyda'i Gilydd



Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Fforwm Cymuned Penparcau'n gweithio ar y cyd ar brosiect o'r enw 'APT: Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth a Fforwm Penparcau Gyda'i Gilydd'. Menter blwyddyn yw hon a'r penllanw fydd trosglwyddo awenau Canolfan y Celfyddydau i drigolion Penparcau am wythnos o ddigwyddiadau a gweithgareddau ym mis Mehefin. Bu Newyddion Aber yn siarad â Chydlynydd y Prosiect, Alaw Griffiths, i glywed rhagor:

**Wnewch chi esbonio rhyw gymaint am y prosiect?**
Nod y prosiect yw datblygu 'Partneriaeth Penparcau', a bydd trigolion Penparcau'n cynorthwyo i greu rhaglen, ac i drefnu, rheoli a rhedeg Canolfan y Celfyddydau am wythnos ym mis Mehefin.

Trwy gydol y prosiect, bydd tîm y Ganolfan yn cynorthwyo i hyfforddi trigolion Penparcau i feithrin nifer o sgiliau, gan gynnwys rhai technegol, rheoli digwyddiad, blaen-tŷ, a marchnata i'r celfyddydau creadigol.

Yna, ym mis Mehefin, 'rhennir' y Ganolfan gyda Fforwm Penparcau, a fydd yn rhoi eu sgiliau newydd ar waith er mwyn helpu i redeg y lleoliad ar gyfer y digwyddiadau a drefnwyd ganddynt.

**Beth sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar?**
Ers rhai misoedd, mae trigolion Penparcau wedi bod yn dewis gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer Wythnos Penparcau (teitl i'w gadarnhau) yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Ym mis Hydref, bu aelodau Fforwm ieuenctid Penparcau ar ymweliad â'r Ganolfan i gael ychydig o ysbrydoliaeth. Aethant o gwmpas y Ganolfan, gan gynnwys ymweliad cefn llwyfan; buont yn cymryd rhan mewn gweithdy a gwylio perfformiad o Kathakali, sef dawns-ddrama draddodiadol o Dde India.

Ddiwedd mis Tachwedd, daeth tua 50 o drigolion i ddigwyddiad 'Sglodion a Sgwrs' ym Mhenparcau, lle clywsant ragor am y prosiect gan staff Canolfan y Celfyddydau, a chafwyd sesiwn o daflu syniadau ar gyfer rhaglen ddigwyddiadau mis Mehefin.

Mae'r trigolion hefyd wedi cael cyfle i hyfforddi i fod yn staff blaen tŷ, a chael cyfle i weld rhai o sioeau gwych y Ganolfan yn rhad ac am ddim. Ychydig cyn y Nadolig, bu aelodau'r Fforwm Ieuenctid a thrigolion eraill yn cynorthwyo gyda dyletswyddau blaen tŷ yn ystod perfformiadau o *The Little Match Girl*.

Tua diwedd Ionawr daeth trigolion Penparcau i ddangosiad o *Star Wars: The Last Jedi*, a chael sgwrs â Rheolwr y Sinema, Gareth Bailey, i ddysgu sut mae pethau'n gweithio yn y Sinema a thrafod beth allai fod yn bosibl yn ystod Wythnos Penparcau.

Trefnwyd rhaglen lawn o weithdai enghreifftiol yn y Ganolfan y Celfyddydau ym mis Chwefror hanner tymor, lle gallai pobl gael rhagflas o'r hyn a fydd yn digwydd yn ystod Wythnos Penparcau, gan gynnwys crochenwaith, ffotograffiaeth, ysgrifennu creadigol, gweithdy radio, cerddoriaeth a drama, a gweithdy gweithgaredd i rieni a phlant bach.

**Beth fydd yn digwydd yn yr wythnos neu ddwy nesaf?**
Ym misoedd Chwefror a Mawrth, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i ymweld â'r MAC, Birmingham a Pontio ym Mangor er mwyn cael gwybodaeth ac ysbrydoliaeth.

Rydym hefyd wrthi'n brysur yn beirniadu'r gystadleuaeth i ddylunio logo i'r prosiect, a phenderfynu ar enw pendant i 'Wythnos Penparcau'.

**Sut all pobl ddod i gymryd rhan?**
Os ydych chi'n byw ym Mhenparcau, neu os oes gennych ffrindiau neu deulu sy'n byw yno, rydyn ni'n awyddus iawn i gael rhagor o drigolion i fod yn rhan o'r prosiect gwych hwn. Mae'n agored i holl grwpiau a thrigolion Penparcau. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chymryd rhan cysylltwch ag Alaw Griffiths yng Nghanolfan y Celfyddydau, alg54@aber.ac.uk / 01970 622832.



*Aelodau o Fforwm Ieuenctid Penparcau yn helpu gyda'r dyletswyddau blaen tŷ yn ystod perfformiadau o* The Little Match Girl *yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Rhagfyr 2017.*

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid trwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir yn ei thro gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

I gael y manylion diweddaraf o'r prosiect, ewch i: www.facebook.com/APTaber,
neu os hoffech dderbyn llythyr newyddion y prosiect trwy e-bost cysylltwch ag Alaw - alg54@aber.ac.uk / 01970 622832.

Colofn UMAber

# Gweithio yn yr Undeb, pwy ydym ni, beth ydyn ni'n ei wneud

Diolch i bawb gymerodd ran yn ein harolwg o UMAber ar gyfer staff y brifysgol, cawson ni 238 o ymatebion a fydd yn ein helpu ni i ddatblygu a gwella ein cyfathrebu. Rydyn ni'n dal i ysgrifennu ein hadroddiad ond mae hi eisoes yn glir bod llawer o ddryswch ynglŷn â phwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud, felly rydym am ddefnyddio'r rhifyn hon o Newyddion ABER i egluro'r prif gamsyniadau.

**Gweithio yn yr Undeb**
Mae gan UMAber 14 aelod staff proffesiynol parhaol sy'n ag amrywiaeth o rolau.

Rydyn ni'n gweithio'n bennaf mewn 4 adran:

- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cyllid ac Adnoddau
- Cymorth a Chynrychiolaeth
- Cyfleoedd i Fyfyrwyr

Fel rhan o ddatblygiad ein mudiad a'n datblygiad proffesiynol, rydyn ni'n gweithio'n agos gydag undebau myfyrwyr eraill i ffurfio'r hyn a wnawn yn lleol ac i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn genedlaethol. Caiff ein holl staff eu penodi'n nid eu hethol ac maent yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau.

Rydyn ni wrthi'n gweithio i gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol 2020 (www.abersu.co.uk/aboutaber/ourstrategy) a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â myfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Cewch wybod mwy ar www.umaber.co.uk/ynglynagaber/staffumaber

**Rydyn ni'n elusen annibynnol**
Roedd 60% o'r staff a holwyd yn gwybod ein bod ni'n elusen ac roedd 81% yn gwybod ein bod ni'n annibynnol o'r brifysgol.

Mae UMAber yn elusen gofrestredig ffurfiol (#1150576) sy'n golygu ein bod yn cyflwyno cyfrifon blynyddol, ac er cawn ni ein harwain yn ddemocrataidd, rydyn ni'n atebol i Fwrdd Ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys 5 proffesiynwr allanol a wahoddwyd yn sgil eu harbenigedd a'u gwybodaeth).

**Yr hyn rydyn ni'n ei wneud (a'r hyn dydyn ni ddim)**
Roedd 86% o staff y brifysgol a ymatebodd i'n harolwg yn meddwl mai ni sy'n gyfrifol am y siop, y bar a'r adloniant gyda'r nos. Mewn gwirionedd, trosglwyddodd Undeb y Myfyrwyr yr holl wasanaethau masnachol i'r Brifysgol ym Medi 2016.

Yn dilyn y trosglwyddiad, roedd modd i ni ganolbwyntio o'r diwedd ar ein diben craidd fel mudiad cynrychioli aelodaeth.

**Dyma ambell ffaith ddiddorol ynglŷn â rhai o'r pethau a wnawn:**

- Mae gan DîmAber (teulu clybiau chwaraeon a chymdeithasau UMAber) bron 3,000 o aelodau.
- Rydyn ni'n hyfforddi ac yn datblygu dros 800 o arweinwyr a gwirfoddolwyr (gan gynnwys y Cynrychiolwyr Academaidd).
  Mae gennym ni dros 50 o glybiau chwaraeon a thros 100 o gymdeithasau dan arweiniad myfyrwyr (mae 39 o'r rhain yn gymdeithasau academaidd).
- Rydyn ni'n cynnal 7 Bob Ochr Aber, y twrnamaint rygbi blynyddol sy'n denu bron 100 o dimau (o gyn-fyfyrwyr Aber yn bennaf) i Aberystwyth ar Ŵyl y Banc Mai.
- Yn 2017, cafodd ein myfyrwyr newydd eu croesawu gan 95 o wirfoddolwyr Tîm-A, a ddosbarth 6 chas o ddŵr potel, 200 o lolipops, 72 o ponchos glaw a 63 o barau o fflip fflops! Hefyd, llwyddon nhw i helpu 43 o fyfyrwyr i fynd yn ôl at eu ffrindiau / eu sosialau neu i'w cerdded yn ddiogel i'r rhes dacsis

**Adeilad Undeb y Myfyrwyr...**
Roedd mwyafrif sylwadau'r staff a holwyd ynglŷn â sut gallem ni wella yn ymwneud â chyflwr adeilad Undeb y Myfyrwyr. Rydyn ni'n gwbl ymwybodol y byddai adfer yr adeilad ychydig yn gwneud byd o wahaniaeth ac rydym wrthi'n trafod hyn â'r Brifysgol ar hyn o bryd.

Rydyn ni ar ein taith newid yma yn UMAber, rydyn ni wedi ystyried yr adborth ac rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau â'n datblygiad.

Ewch i www.umaber.co.uk am newyddion a rhagor o wybodaeth.


**Tîm UMAber**














# Wythnos Un Byd 2018

## Mae Wythnos Un Byd 2018 yn nesáu, ac eleni bydd yn rhedeg (am fwy nag wythnos) o ddydd Llun 5 Mawrth tan ddydd Sadwrn 17 Mawrth.

Wythnos Un Byd yw gŵyl fwyaf Prifysgol Aberystwyth i ddathlu a hyrwyddo'r gwahanol ddiwylliannau a chenhedloedd sy'n rhan o'n cymuned o fyfyrwyr rhyngwladol yma yn Aber.



Roedd digwyddiadau'r llynedd yn llwyddiant ysgubol ac rydym yn gobeithio adeiladu ar y llwyddiant hwnnw a gwneud digwyddiadau'r flwyddyn hon yn fwy ac yn well.

Bydd llawer o wahanol ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos.

Un o'r prif ddigwyddiadau fydd 'Noson Gala Wythnos Un Byd', ble bydd cyfle i'r myfyrwyr arddangos eu talentau. Cynhelir y digwyddiad hwn, a fydd yn lansio Wythnos Un Byd, ddydd Llun 5 Mawrth yn y Brif Ystafell, Undeb y Myfyrwyr. Gwahoddir yr holl fyfyrwyr a staff.

Mae 'Ffair y Byd' hefyd yn rhan bwysig o Wythnos Un Byd. Mae'r digwyddiad yn caniatáu i fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr cartref i 'arddangos' eu diwylliant trwy gynnal stondin, cynnig bwyd traddodiadol, sgiliau iaith, gwybodaeth benodol am y wlad, crefftau, a gwisgoedd traddodiadol. Cynhelir y ffair ddydd Iau 8 Mawrth yn y Brif Ystafell, Undeb y Myfyrwyr.

Daw Wythnos Un Byd i ben gyda'r 'Nos Malaysia' flynyddol a gynhelir yng Nghanolfan y Celfyddydau am 6yh ddydd Sadwrn 17 Mawrth. Mae tocynnau ar gael o'r Swyddfa Docynnau ar 01970 623232 neu o wefan Canolfan y Celfyddydau, www.aberystwythartscentre.co.uk.

Gobeithiwn gynyddu rhyngweithiad y staff a'r myfyrwyr yn y digwyddiadau hyn eleni a charem glywed gan unrhyw un a hoffai gymryd rhan.

Cynhelir ein digwyddiad i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd eleni ddydd Sadwrn 24 Chwefror yng Nghanolfan y Celfyddydau o 6yh. Gellir prynu tocynnau o'r Swyddfa Docynnau neu o wefan Canolfan y Celfyddydau.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau hyn cysylltwch â oneworld@aber.ac.uk.



# O Aberfan i Aberystwyth - Cantata Memoria

Nawr ac yn y man daw fflach newyddion ag iddo gymaint o arwyddocâd ac sy'n cael y fath effaith, fod amgylchiadau clywed y newyddion yn cael eu serio ar y cof - saethu'r Arlywydd Kennedy, damwain y Dywysoges Diana, ymosodiad y ddau dŵr. Stori newyddion o'r fath oedd trychineb Aberfan.

Ar Hydref 21ain 1966, fe laddwyd 116 o blant a 28 oedolion ar ôl i dirlithriad o wastraff glofaol syrthio ar ysgol Gynradd Pantglas ynghyd â thai cyfagos ym mhentref Aberfan.

I goffáu hanner canmlwyddiant y trychineb, cafodd y cyfansoddwr Karl Jenkins a'r Athro Mererid Hopwood, sydd yn fardd ac yn gyn-fyfyrwraig Prifysgol Aberystwyth, eu comisiynu gan S4C i greu gwaith corawl newydd.

Dywedodd Jenkins - y mae ei waith yn cael ei berfformio'n fwy na'r un cyfansoddwr corawl byw arall yn y byd, yn ôl pob tebyg - mai dyma'i brofiad mwyaf emosiynol fel cyfansoddwr: "Pan glywir y gair Aberfan, nid oes angen esboniad pellach, mae'r effeithiau tragwyddol wedi'u hymgorffori yn yr enw. Beth sy'n aros, wrth gwrs, yw'r ffaith mai plant oedd mwyafrif y dioddefwyr. Roedd ymdrin â phwnc sy'n rhan mor ddwfn o enaid y Cymry yn brofiad dirdynnol ond eto'n ddyrchafol ar yr un pryd."

Perfformiwyd *Canata Memoria: Er Mwyn y Plant* am y tro cyntaf yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yn Hydref 2016.

Ddeunaw mis yn ddiweddarach, mewn un o'r perfformiadau cyntaf yng Nghymru ers y perfformiad hwnnw, gellir clywed *Canata Memoria* yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 3ydd o Fawrth 2018.

Ar y llwyfan fe fydd 90 llais Cantorion y Brifysgol, dau unawdydd rhyngwladol o Gymru, sef Fflur Wyn a Paul Carey Jones, a fydd yn cael cefnogaeth broffesiynol gan Sinfonia Cambrensis.

Perfformir rhan hollbwysig gan leisiau ifanc o ysgolion lleol gan gynnwys disgyblion Ysgol Penglais o grŵp Elinor Powell, 'Sgarmangels' a disgyblion iau o Ysgol Padarn Sant.





Dywedodd y cyfarwyddwr cerddoriaeth Dr David Russell Hulme, a fydd yn arwain y perfformiad, "Dyma waith o bwys - un cymhleth ac anodd. Fe gafodd effaith fawr yn y gyngerdd yng Nghaerdydd ac rwyf yn siŵr y caiff effaith debyg yma."

Bythefnos yn ddiweddarach, ddydd Sadwrn 17eg o Fawrth, bydd cerddorfa symffoni'r Brifysgol a'r gymuned, Philomusica, yn cyflwyno perfformiad gerddoriaeth fawreddog arall yn y Neuadd Fawr.

Fel sy'n digwydd bob tro, bydd y rhaglen yn cynnig taith o ddarganfyddiadau newydd, yn cymysgu ffefrynnau cyfarwydd, megis cerddoriaeth *Peer Gynt* gan Grieg a *Capriccio Espagnol* disglair Rimsky-Korsakoff, â darn llai adnabyddus, ond sydd eto'n hyfryd o felodaidd a lliwgar, sef *Irish Symphony* gan Hamilton Harty.

Dywedodd yr arweinydd Dr David Russell: "Mae creu rhaglen yn debyg i ddylunio bwydlen - cymysgu ffefrynnau ac elfennau anghyfarwydd i bobl eu profi a'u mwynhau. Rwyf bob amser yn mwynhau perfformio cerddoriaeth Harty. Mae gan ei symffoni elfen Ramantaidd wych ynghyd â melodïau sydd yn aros yn y cof."

Bydd yr unawdydd gwadd sef y pianydd rhyngwladol Samantha Ward yn chwarae consierto gyntaf Prokofiev i'r piano, darn gwefreiddiol a bythgofiadwy. Dyma drydydd ymddangosiad Samantha gyda'r gerddorfa. Y mae hi yn sicr yn gefnogwr brwd o'r Philomusica sydd, yn ei barn hi, ymhlith y cerddorfeydd cymunedol gorau.

Mae cyngherddau Philomusica yn ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw gwych sy'n denu niferoedd mawr - mwy, yn aml, na cherddorfa'r BBC a cherddorfeydd eraill sy'n ymweld. Esboniodd Dr Hulme: "Mae cerddoriaeth yn dod â'r Brifysgol a'r gymuned at ei gilydd mewn modd unigryw. Mae ein perfformiadau mawreddog yn darparu cyfle i ddangos bwrlwm rhyfeddol y berthynas hon."

Mae tocynnau ar gael o swyddfa docynnau Nghanolfan y Celfyddydau drwy ffonio 01970 623232 neu drwy'r wefan www.aberystwythartscentre.co.uk

# Dyddiadur bardd o India yng Nghymru



Cwblhaodd Mohini Gupta, bardd o Delhi Newydd yn India, gyfnod preswyl tri mis yn y Brifysgol ychydig cyn y Nadolig. Roedd ar ymweliad fel Cymrawd Ysgrifennu a Chyfieithu Creadigol Ymddiriedolaeth Charles Wallace India (CWIT), gwobr sy'n cael ei dyfarnu i lenorion yn gynnar yn eu gyrfa gan Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, sy'n rhan o Sefydliad Mercator yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Cymerodd Mohini ran mewn amryw helaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod ei hymweliad, gan gynnwys cyfieithu barddoniaeth Vikram Seth i'r Hindi; ysgrifennu barddoniaeth yn Saesneg, Hindi ac Wrdw i ddarllenwyr ifanc; darllen gweithiau yn Saesneg a Hindi mewn gwyliau llenyddol; mynychu digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol Cyfieithu yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain; cymryd rhan yng ngweithgareddau Diwrnod Rhyngwladol Ysgol Gymraeg Aberystwyth; a gweithio gyda myfyrwyr yr MA Cyfieithu Proffesiynol.

Cyn iddi ddychwelyd i Delhi Newydd ychydig cyn y Nadolig, cofnododd Mohini ei myfyrdodau ar yr amser a dreuliodd ym Mhrifysgol Aberystwyth i Newyddion ABER:

Wrth eistedd yn fy nosbarth Cymraeg y diwrnod o'r blaen, dechreuais deimlo'n aflonydd braidd. Roeddem yn astudio treigladau, ac yn arbennig felly'r treiglad trwynol. Dyma'r tro cyntaf i mi geisio dysgu Cymraeg, ond roed y rheolau'n teimlo'n gyfarwydd rywsut. Fe es i'n ôl a gwneud ychydig o ymchwil: roedd treiglad tebyg iawn yn yr iaith Sansgrit, ac roedd yr wyddor Hindi'n esbonio'r rhesymeg sydd wrth wraidd y treiglad Cymraeg penodol hwn.

Ni all y tebygrwydd trawiadol rhwng ein hieithoedd a'n diwylliannau fod yn gyd-ddigwyddiad. Wrth ddarllen am gynghanedd, edrychais eto ar hen destun Sansgrit (o'r 15fed ganrif CC) roeddwn yn ei gofio, a chael hyd i linell mewn cynghanedd sain. A minnau'n gymrawd ysgrifennu a chyfieithu yn byw yn Aberystwyth, ac yn ymddiddori mewn barddoniaeth ac iaith a cherddoriaeth, roedd hyn oll yn gyffrous dros ben. A chefais fy mod yn awyddus i gael gwybod ychydig yn fwy am ddiwylliant Cymru bob dydd.

Daeth Aberystwyth yn ysbrydoliaeth perffaith i mi. Roedd y môr o gymorth i mi i ymdawelu a chanolbwyntio, a bwrlwm bywyd y dref yn codi fy nghalon. Cefais gyfle i gwrdd â phobl hynod ymhlith myfyrwyr, beirdd, athrawon prifysgol, ieithwyr, gwleidyddion, archifwyr, cyhoeddwyr, actorion, ffermwyr, cynhyrchwyr theatr a gwneuthurwyr ffilmiau, a dysgais rywbeth newydd ym mhob sgwrs. Gwnaeth i mi feddwl am fy nwyieithrwydd fy hun ac ystyried gwleidyddiaeth iaith a hierarchaeth yn India. Wrth wylio addasiad 2017 o *Wythnos yng Nghymru Fydd* (Islwyn Ffowc Elis, 1957) fe'm gwthiwyd i feddwl yn ddwys am yr iwtopia ieithyddol rwyf yn dyheu amdani i'm hiaith fy hun. Efallai nad yw Hindi, sy'n cael ei siarad gan 500 miliwn o bobl ledled y byd, mewn perygl eto, ond mae'r genhedlaeth iau'n dechrau ei gwrthod o blaid iaith arall sy'n fwy byd-eang a phroffidiol, sef Saesneg. Sut mae pwysleisio grym ymroi i'n mamiaith ein hunain? A lwyddwn ni fyth i wella o ôl-effeithiau trefedigaethu?

Un o uchafbwyntiau'r amser a dreuliais yng Nghymru oedd dod â chriw o bobl a oedd wrth eu bodd ag iaith a barddoniaeth at ei gilydd mewn 'Mushaira' a drefnais ar y cyd â'm tiwtor Cymraeg a'm cyfaill Dewi Huw Owen, dan adain Sefydliad Mercator ac Arad Goch. Cawsom ddarlleniadau barddoniaeth gan 19 o bobl mewn 15 o wahanol ieithoedd gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Hindi, Wrdw, Almaeneg, Portiwgaleg, Fflemeg, Iseldireg, Mandarin a Llydaweg. Roedd amrywiaeth yr ieithoedd, y pynciau trafod a'r emosiynau a fynegwyd yn ysgubol. Anghofiaf i fyth chwaith fy sesiwn gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn yr Ysgol Gymraeg, lle bûm yn sôn wrthynt am India, yn chwalu ambell i fyth am ddiwylliant India, ac yn eu dysgu i ganu cân Hindi, yr oedden nhw'n ei hymian am ddyddiau wedi hynny. Ar ôl ein trafodaeth, clywais un ohonynt yn dweud wrth y llall: "Os ei di i India ac archebu chicken tikka masala, fe fyddan nhw'n chwerthin am dy ben!"

Rwyf wedi bod yn ffodus iawn o gael dod i adnabod Cymru cystal mewn cwta dri mis - boed hynny drwy'r Gymraeg a'i barddoniaeth; ymweliadau â Chaernarfon, Caerdydd, Bedlinog a Thyddewi; neu drwy wylio gêm rygbi'n fyw yn Stadiwm y Mileniwm! Rwy'n hynod ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Charles Wallace India a Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau am eu ffydd yn fy mhrosiect barddoniaeth a chyfieithu, a hoffwn ddiolch yn arbennig i Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant (yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu) am estyn croeso i mi. Diolch yn fawr!

Rwy'n mawr obeithio y byddaf yn cofio am byth y cariad a'r ysbrydoliaeth y mae Aberystwyth wedi eu rhoi i mi. A phan fydd yr hiraeth yn fy llethu, rwy'n gobeithio y caf ddod yn ôl.

# Munud gyda... Andrea Pennock



Dechreuodd Andrea Pennock yn swydd Cyfarwyddwr Datblygu Ystadau'r Brifysgol ym mis Rhagfyr 2016. Bu Ruth Fowler, Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol yn sgwrsio â hi i glywed mwy amdani hi a'i gwaith.

**Rhowch ychydig o'ch cefndir i ni**
Ces fy ngeni ym Melffast, ac yna symudais i Abertawe yn fy arddegau cynnar.  Treuliais nifer o flynyddoedd yn teithio a gweithio mewn amrywiol leoliadau ar hyd a lled Prydain, cyn symud nôl i Abertawe i swydd Pennaeth Ystadau a Rheoli Adnoddau gyda'r DVLA.  Roeddwn i'n gyfrifol am dîm o 90 o staff mewnol yn ogystal â thîm mawr o gontractwyr.

Yn 2014, cefais fy mhenodi'n Uwch Arweinydd Categori i Wasanaeth Masnachol y Goron, yn Swyddfa'r Cabinet yn Llundain, lle'r oeddwn yn rheoli gwariant Rheoli Adnoddau i'r Llywodraeth Ganolog. Ymunais â Phrifysgol Aberystwyth ym mis Rhagfyr 2016.

Mae gen i ddau o blant; mae fy merch yn astudio'r Gyfraith yng Ngholeg yr Iesu, Caergrawnt, ac mae fy mab yn astudio ar gyfer ei arholiadau Safon Uwch yn Ysgol Penglais.

**Beth yw cwmpas eich swydd yn y Brifysgol?**
Mae Cyfarwyddwr Datblygu'r Ystadau yn bennaeth ar adran lle mae 43 o aelodau staff yn gweithio ar Reoli Gofod a'r Ystâd, Prosiectau, Cynnal a Chadw, Tiroedd, Iechyd a Diogelwch, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a Chydymffurfiaeth.

Ar y cyfan, mae adrannau Ystadau yn tueddu bod yn amgylcheddau a reolir gan ddynion. Er enghraifft, yma yn Aber, mae gennym 40 o ddynion yn gweithio i'r Adran a dim ond pedair menyw - ac rwy'n credu mai fi yw'r fenyw gyntaf yn hanes hir y Brifysgol i fod yn Gyfarwyddwr ar yr Adran.

**Beth yw'r prosiectau cyfredol sydd ar y gweill gan yr Adran?**
Rhai o'r prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd yw: ail-wifro Theatr y Werin, symud yr holl addysgu israddedig amser llawn o Lanbadarn i Gampws Penglais, amrywiol welliannau i'r isadeiledd, Pantycelyn, yr Hen Goleg, a'r Campws Arloesi a Menter.

**Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am y gwaith?**
Yr ymdeimlad o gyflawniad a bod yn rhan o dîm sy'n cynorthwyo i lunio'r amgylchedd yr ydyn ni'n byw a gweithio ynddo, yn ogystal ag amrywiaeth y gwaith o ran y prosiectau heriol a chyffrous sy'n rhaid i ni eu cyflawni.



# Ffocws ar...

CYMRAEG

## Y Gymraeg ar waith yn y gwaith

Bob dydd Llun mae Rhiannon Taylor, sy'n diwtor Cymraeg i Oedolion, yn cynnal gwersi Cymraeg i staff Adnoddau Dynol yn eu swyddfa, yn amrywio o ddosbarthiadau i ddechreuwyr llwyr i gyrsiau uwch.

Aeth Newyddion ABER i sgwrsio â thri aelod o'r tîm AD am eu profiadau o ddysgu'r Gymraeg a'i defnyddio yn y gweithle:

**Toni Hunter**
**Cwrs Dechreuwyr**

Rydw i'n gwneud y dosbarth Cymraeg i ddechreuwyr ers tua blwyddyn.

Fe wnes i Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ond cyn gweithio yn y Brifysgol doedd yr iaith ddim yn un o ofynion dydd i ddydd fy swydd, ac fe gollais y rhan fwyaf o'r hyn roeddwn wedi'i ddysgu.

Mae'r gwersi wastad yn ddifyr. Mae'n grŵp bach hollol hamddenol ei naws felly rydych chi'n teimlo'n ddigon hapus i roi tro arni hyd yn oed os nad ydych chi'n gywir bob tro - ac mae hyn weithiau'n arwain at rai atebion doniol.

Yr unig beth nad ydw i'n or-hoff ohono yw'r gwaith cartref. Ar ôl dechrau arno mae'n iawn ond mae meddwl amdano'n teimlo fel taswn i nôl yn yr ysgol! Mae'r plant yn meddwl ei bod yn ddoniol fod gen i waith cartref!

Rydw i eisoes yn deall tipyn mwy o'r Gymraeg sy'n cael ei siarad yn y swyddfa, ac rydw i'n ei chael yn haws helpu'r plant gyda'u darllen a'u dysgu nawr hefyd.

Fe fyddwn i'n bendant yn argymell dosbarthiadau Cymraeg i aelodau eraill y staff. Mae'n arbennig o dda cael dysgu gyda chydweithwyr eich adran, oherwydd rydych chi'n dod i wybod mwy amdanyn nhw ac fe allwch chi helpu'ch gilydd os ydych chi'n cael trafferth gyda'r gwaith cartref.

**Sam Morrison**
**Cwrs Canolradd**

Rwy'n mynd i ddosbarth canolradd am awr ar bnawn Llun yn yr adran AD.

Rwy'n mwynhau'r dosbarthiadau, yn enwedig y sgwrs ryngweithiol ymhlith y grŵp.

Rydw i'n bendant yn gweld fy Nghymraeg yn gwella. Yn fuan, rwy'n mynd i ddechrau ar ddosbarth dwy awr ar nos Iau hefyd.

Fe fyddwn i'n wir yn argymell i aelodau eraill y staff ddysgu Cymraeg, yn enwedig y rhai mewn swyddi rheng-flaen sy'n ymwneud â staff a'r cyhoedd.

Yn y tîm AD rydyn ni'n cael ein cefnogi os ydyn ni'n awyddus i ddysgu Cymraeg. Mae Cyfarwyddwr AD yn ein hannog i gymryd gwersi Cymraeg ac yn hybu unrhyw gyrsiau Cymraeg yn ein cyfarfodydd tîm.

Rwy'n teimlo'n benodol bod cael tiwtoriaid Cymraeg i gymryd sesiynau grŵp mewn adrannau yn syniad da.

**Martyn Saycell**
**Cwrs Uwch**

Rydw i'n mynd i ddosbarth uwch a hefyd yn cael gwers ar fy mhen fy hun bob dydd Llun.

Mae'r dosbarthiadau'n wirioneddol dda, ac mae Rhiannon yn athrawes ragorol ac amyneddgar iawn. Rydyn ni'n cael sgyrsiau diddorol ynglŷn â pham mae rhai geiriau'n wrywaidd neu'n fenywaidd.

Mae dysgu mewn sefyllfa un-i-un yn heriol a dwys. Does dim gorffwys, ac ar ôl gwers sy'n para awr rwy'n teimlo fel tasen i wedi bod yn gweithio'n galed yn y gampfa!

Rydw i'n teimlo'n fwy hyderus gyda'r Gymraeg yn barod, ac wedi dechrau defnyddio'r iaith mewn nifer o gyfarfodydd.

Mae'r adran wedi fy nghefnogi'n llwyr wrth i mi ddysgu Cymraeg. Mae hi wedi bod yn fanteisiol iawn i allu cael sgyrsiau Cymraeg gyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill yn yr Adran.

Mae gwersi Cymraeg yn ffordd wych o wella'ch sgiliau, ac rwy'n credu bod gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r Gymraeg yn hanfodol os ydych chi eisiau gweithio ym maes Addysg Uwch yng Nghymru.





# Fy Ymchwil





Mae Amy Farrington yn gwneud ymchwil i blanhigion tra'n gweithio'n ogystal fel Technegydd mewn Geneteg Porfa Magu Planhigion yn IBERS.

Ar ôl graddio mewn Llunio Gwisgoedd yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, symudodd Amy at y gwyddorau ar ôl cael swydd cynorthwydd dros yr haf a arweiniodd at gyflogaeth amser llawn ac, erbyn hyn, at brosiect ymchwil MSc.

**Rhowch ddisgrifiad cryno o'ch ymchwil.**
Ar gyfer fy mhrosiect ymchwil, rwy'n bwrw golwg ar fanteision endoffytau ffwngaidd Epichloë o fewn i system fridio rhygwellt porthiant lluosflwydd.

Ffyngau symbiotig sy'n digwydd yn naturiol yw endoffytau ffwngaidd ac fe'u ceir yn y rhan fwyaf o laswelltir pori yma ym Mhrydain ac yn fyd-eang.

Gallant gynnig llawer o fanteision i'r organeb letyol drwy ymateb alcaloid cliciedig y planhigyn. Er enghraifft, tyfiant a chynnyrch gwell, gwrthsafiad yn erbyn heintiau neu bathogenau, a'r gallu posibl i gynyddu mewnlif nitrogen.

Mae'n bosibl i endoffytau ffwngaidd chwarae rhan hanfodol yn natblygiad systemau porthiant yn y dyfodol mewn hinsawdd sy'n newid yn gyson.

Trwy gasgliadau o blanhigion a ffynonellau hadau hanesyddol, rwy'n gallu sylwi ar y rhywogaethau sy'n digwydd yn naturiol mewn tir pori parhaol yma ym Mhrydain, ac archwilio manteision potensial y gall eu presenoldeb ei ychwanegu at yr amryw fathau o laswellt a ddefnyddir mewn system seiliedig ar borthiant.

**Pa fath o beth yw diwrnod nodweddiadol i chi?**
Mae hyn yn amrywio cryn dipyn o ddydd i ddydd ac o dymor i dymor.

Ar hyn o bryd rwy'n ymgymryd â'm hymchwil drwy'r Rhaglen Partneriaethau Hyfforddi Uwch, sy'n fy ngalluogi i astudio ochr yn ochr â'm gwaith amser llawn yn dechnegydd yn y rhaglen bridio glaswellt yma yn IBERS, felly rwy'n gallu cydbwyso'r ddwy swyddogaeth.

Yn ystod misoedd yr haf, rwyf ar gael allan yn y lleiniau cynaeafu gyda'n cynaeafwr Haldrup yn plannu miloedd lawer o blanhigion cytbell ac yn darparu croesau ar gyfer ein poblogaethau bridio.

Ond yn y gaeaf rwy'n tueddu i dreulio mwy o amser yn y labordy yn dadansoddi samplau a gasglwyd yn ystod yr haf, neu'n gofalu am ein stoc sydd mewn potiau yn y twnelau poly.

Rwyf hefyd yn treulio llawer o amser yma yn y labordy yn syllu drwy'r microsgop i chwilio am endoffytau yn fy nghasgliadau o blanhigion ac yn arbrofi â dulliau o frechu ein math Aber o rygwellt parhaol. Mae fy nesg yn aml ar goll o dan drwch o bapurau a sleidiau ymchwil.

Rwyf newydd dderbyn grant gan Ymddiriedolaeth Goffa Stapledon ar gyfer taith astudio i Seland Newydd lle byddaf yn dysgu technegau labordy ac yn arsylwi ar waith maes, felly ar hyn o bryd rwy'n brysur yn cynllunio fy nhaith ac yn darllen cymaint ag a allaf er mwyn bod yn barod ei chyfer a'r gwaith fydd yn fy aros pan gyrhaeddaf yn ôl.

**Beth sy'n rhoi'r boddhad pennaf i chi?**
Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rwyf wedi eu cael ers i mi roi cychwyn ar fy mhrosiect ymchwil.

Er enghraifft, cefais gyfle y llynedd i deithio i Ddulyn i gynhadledd ryngwladol, ac erbyn i'r rhifyn hwn o Newyddion Aber gael ei gyhoeddi, byddaf wedi teithio i Seland Newydd i ymweld ag athrofa yno.

Gan fy mod yn aelod o'r staff ac yn fyfyriwr, rwy'n gymwys i gael fy ariannu gan rai o'r amryfal grantiau ac ysgoloriaethau cyffrous sydd gan Brifysgol Aberytwyth i'w cynnig. Er enghraifft mae fy nhaith i Seland Newydd yn cael ei hariannu gan Ymddiriedolaeth Goffa Stapledon, a bydd hynny'n fy ngalluogi i ddysgu technegau ac i ennill profiad a fyddai ar wahân i hynny yn cymryd amser maith i'w dysgu.

Mae'n ffantastig bod yn gymwys am y cyfleoedd hyn i ddatblygu fy ngyrfa a'm gwybodaeth, ac mae'n anhygoel i weld fy ymchwil yn elwa o'r profiadau.

Credaf y dylen ni bob amser fod yn edrych ar ffyrdd i wella ein hymchwil er mwyn addasu ar gyfer yr hinsawdd gyfnewidiol, ac yn annog datblygiad technegau a dulliau o weithio drwy ddysgu oddi wrth waith pobl eraill.

**Beth yw'r her fwyaf i chi?**
Mae ceisio cydbwyso fy ymchwil ochr yn ochr â'm gwaith amser llawn a'm teulu sy'n cynyddu'n gyson yn her wirioneddol.

Rwyf wedi treulio llawer o nosweithiau hwyr a boreau cynnar yn darllen papurau ac yn cynllunio arbrofion ymhlith tryblith bywyd cartref!

Mae ymgymryd â phrosiect ymchwil heb sylfaen o radd mewn gwyddoniaeth wedi golygu gorfod dysgu pethau ar fyr o dro, bu'n rhaid i mi astudio'n wirioneddol galed i ddatblygu fy ngwybodaeth.

Mae'r Bartneriaeth Hyfforddiant Uwch wedi rhoi i mi'r cyfle i ymgymryd â modiwlau hanfodol i gynyddu fy ngwybodaeth ac mae wedi sicrhau fod gen i'r offer i gychwyn yn hyderus ar fy mhrosiect ymchwil, yn ogystal â bod ar gael i gynnig cyngor pan fyddaf yn teimlo fy mod wedi fy ngorlethu.

# Penodiadau

## Croeso cynnes i gydweithwyr sydd wedi ymuno â'r Brifysgol yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys:

### Swyddfa'r Is-Ganghellor



Mae **Nick Rogers** yn ymuno â'r Brifysgol fel Cyfarwyddwr y Strategaeth Newid. Mae'n gyn-Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol ym Mhrifysgol James Cooke, Awstralia, lle'r oedd yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain; Prifysgol Kingston Llundain, a Phrifysgol Napier Caeredin. *Cewch weld mwy o fanylion am Nick ar dudalen 19.*

### Yr Adran Gyllid



Mae **Stephen Forster** wedi ymuno â ni fel y Cyfarwyddwr Cyllid. Bu'n Gyfarwyddwr Cyllid a Gweithredu Corfforaethol yng Ngholeg Barnet a Southgate lle'r oedd yn aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth Gweithredol. Graddiodd o Brifysgol Sheffield ac mae'n gymrawd o'r Gymdeithas Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig. Cyn ymuno â Choleg Barnet a Southgate, roedd Stephen yn Gyfarwyddwr Cyllid yng Ngholeg Alton, Hampshire, ac yn Uwch Reolwr gyda PricewaterhouseCoopers.

### Yr Adran Ystadau



Ymunodd **Claire Williams** â'r Brifysgol ym mis Rhagfyr fel Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Mae ganddi brofiad o weithio i awdurdod lleol, cymdeithas tai a maes gweithgynhyrchu, ac mae'n dod â phrofiad eang o y reoli risg synhwyrol.



Cymerodd **Dewi Day** yr awenau fel Ymgynghorwr yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ym mis Medi 2017. Mae gan Dewi fwy na 10 mlynedd o brofiad yn y diwydiant cynaliadwyedd, gan gynnwys gwaith ym meysydd rheoli ynni, systemau rheoli amgylcheddol, ymgynghori amgylcheddol, ansawdd dŵr a rheoli gwastraff. Mae gan Dewi MSc a BSc mewn rheoli amgylcheddol, mae'n amgylcheddwr siartredig, yn aelod cyflawn o'r IEMA (*Institute of Environmental Management and Assessment*), a Rheolwr Ynni cydnabyddedig yr EMA.

### Adran Daearyddiaeth a Gwyddor Daear



Mae'r **Dr Shubin Lan** yn ymuno â'r Brifysgol fel Cymrawd Sêr Cymru II. Cafodd Shubin ei ddoethuriaeth yng Ngwyddor yr Amgylchedd o Brifysgol Graddedigion Academi Gwyddorau Tsieina 2011, ac ar hyn o bryd y mae'n Athro Cyswllt yn y Sefydliad Hydrobioleg yn Academi Gwyddorau Tsieina. Mae gwaith ymchwil Shubin yn canolbwyntio ar gramennau pridd biolegol a'r rhan maent yn ei chwarae yn ecoleg sychdiroedd.



Daeth y **Dr Adina Racoviteanu** i'r Brifysgol fel Cymrawd Sêr Cymru II ym mis Medi 2017. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys newidiadau i rewlifoedd ar ucheldiroedd yn yr Andes a'r Himalaya, a'u heffaith ar ddiwylliannau lleol. Mae ei phrosiect presennol 'Darganfod Rhewlifoedd', yn canolbwyntio ar nodi'r nodweddion cyfnewidiol ar wyneb rhewlifoedd a orchuddir gan falurion a'r peryglon cysylltiedig posib, gan ddefnyddio offer lloeren i greu delweddu gofodol ac amseryddol manwl.

### Adran Ffiseg



Mae **Dr David Kuridze** wedi ymuno â'r Brifysgol fel Cymrawd Sêr Cymru II. Cafodd David ei Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol y Frenhines, Belfast yn 2014. Rhwng 2014 a 2017, roedd yn Gymrawd Ymchwil Ôl-Ddoethurol yng Nghanolfan Ymchwil Astroffiseg ym Mhrifysgol y Frenhines, Belfast. Mae ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar ddadansoddi a dehongli data o arsylwadau ar yr haul a gafwyd o'r offer diweddaraf, yn ogystal â modelu damcaniaethol o'r prosesau ffisegol sylfaenol yn yr atmosffer heulol is.

### Adran Cyfrifiadureg



Mae'r **Dr Dimitris Tsakiris** wedi ymuno â'r Adran Gyfrifiadureg fel Darllenydd mewn Roboteg Ddeallus. Bu gynt yn ymchwilydd yn Sefydliad Cyfrifiadureg FORTH. Cafodd Dimitris ei MS a'i PhD mewn Peirianneg Drydanol o Brifysgol Maryland yn College Park, MD, UDA. Mae ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar roboteg a ysbrydolir gan fioleg, deallusrwydd ymgorfforedig, roboteg deunyddiau meddal, rheoli symud drwy synwyryddion, a modelu cyfrifiannol.

# Munud gyda... Nick Rogers



Dechreuodd Nick Rogers yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Strategaeth Newid ar 10 Ionawr 2018. Buom yn sgwrsio â Nick er mwyn dysgu mwy amdano, ei waith, a'i argraffiadau cyntaf o Aber.

**Dywedwch ychydig wrthym am eich cefndir**
Gallech ddweud bod gennyf brofiad helaeth yn y byd academaidd! Bûm yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn pedair prifysgol yn yr Alban, Lloegr ac Awstralia yn fwyaf diweddar – gan draddodi ambell ddarlith wadd i fyfyrwyr ar hyd y daith. Dechreuodd nôl yn 1999 pan adewais fy ngwaith fel gweithiwr proffesiynol ym maes AD yn y gwasanaeth sifil i ymuno â Phrifysgol Napier yng Nghaeredin. Ers hynny, rwyf wedi gweithio ym Mhrifysgol Kingston, Llundain; Prifysgol y Celfyddydau, Llundain; ac yn fwyaf diweddar ym Mhrifysgol James Cook yn Townsville, Far North Queensland. Gadewais dywydd 34 gradd ar Ddydd Calan i symud i orllewin Cymru – a dwi ddim yn difaru am eiliad!


**Beth yw eich argraffiadau cyntaf o Aberystwyth?**
Rwyf wrth fy modd â chymeriad a swyn y dref - a'r cefn gwlad bendigedig sydd o'n cwmpas. O ran y Brifysgol roedd ei hanes a'i diwylliant a rhadlonrwydd ei phobl yn amlwg yn syth. Mae'n ymddangos fod pobl yn teimlo balchder yn gweithio yma a dyw hynny ddim yn wir ymhob man. Mae gennyf gysylltiadau ers tro â'r Brifysgol - bu fy llysfab yn astudio MMath yma yn eithaf diweddar. Roedd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn byw ym Mhantycelyn felly mae gennyf rywfaint o ddealltwriaeth o'r hyn mae hynny'n ei olygu i'r gymuned. O fewn deuddydd i gyrraedd Cymru o Awstralia roedd fy ngwraig a minnau'n teimlo ein bod wedi cyrraedd "adref".

**Mae hon yn swydd newydd i Brifysgol Aberystwyth – beth mae'n ei olygu?**
Does gennyf i ddim ffon hud! O ddifrif, rwy'n credu bod pawb yn deall bod angen gwneud rhai newidiadau er mwyn amddiffyn dyfodol a chynaliadwyedd Aber yn y tymor hir. Fy ngwaith i yw helpu i gyflawni'r newidiadau hynny mewn ffordd fydd yn canolbwyntio'n hadnoddau yn y mannau fydd yn cael mwyaf o effaith. Mae'n amlwg fod arian yn dynn a bydd gofyn i mi helpu i gyflawni'r arbedion sydd eisoes wedi eu cyhoeddi yn ystyrlon. Nid am leihau staff yn unig rydym yn sôn – ac rwy'n gwerthfawrogi fod hynny yn annymunol i lawer. Rhaid ystyried hefyd ein ffyrdd o weithio, sut rydym wedi ein trefnu, prosesu gwelliannau, a chyfleoedd ar gyfer tyfu yn y dyfodol. Yng nghanol hyn i gyd, byddaf hefyd yn meddwl sut i gadw llawer o'r rhinweddau yr wyf innau (a llawer o'm cydweithwyr a'r myfyrwyr) wedi eu canfod yma eisoes.

**A oes gennych arwyddair neu fantra personol?**
Mae gennyf ddau. Byddwch yn driw i'ch gwreiddiau (fi oedd y cyntaf o'r teulu i fynd i brifysgol ac rwy'n dod o gefndir digon cyffredin). Yr ail yw gweithiwch yn galed, gan obeithio y bydd lwc yn dilyn. Rwy'n bwriadu gweithio'n galed i Brifysgol Aberystwyth.

# Ysgrifau Coffa

**Yr Athro Harold Carter (1925-2017)**



Graddiodd Harold Carter o Aberystwyth gyda gradd dosbarth cyntaf yn 1950. Yn hwyrach yn y flwyddyn honno, ymunodd â'r Adran Ddaearyddiaeth fel darlithydd cynorthwyol a chwblhaodd ei radd uwch MA yma yn Aberystwyth yn 1952.

Yn 1964 fe ddaeth yn Ddeon Cyfadran y Celfyddydau ac fe'i penodwyd yn Athro Daearyddiaeth Ddynol Gregynog yn 1968.

Ystyriwyd ef yn awdurdod ar yr iaith Gymraeg. O 1981 i 1983 ymgymerodd â rôl Dripwy Brifathro, cyn cael ei benodi'n Bennaeth Daearyddiaeth yn 1983. Yn ddiweddarach, daeth yn Ddeon y Gyfadran Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg, swydd y bu ynddi tan ei ymddeoliad yn 1986.

Yn ystod y cyfnod hwn, treuliodd gyfnodau fel Athro ymweld ym mhrifysgolion Cincinnati a Maryland yn yr UDA, a Phrifysgol Stellenbosch yn Ne Affrica.

Cafodd ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Llanrwst 1989, ac fe'i hetholwyd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2011.

**Yr Athro Emeritws Bobi Jones (1929 – 2017)**



Yn wreiddiol o Gaerdydd, graddiodd Bobi Jones gyda gradd dosbarth cyntaf o Brifysgol Caerdydd yn 1949, a gradd uwch MA o Goleg Prifysgol Dulyn yn 1951.

Bu'n dysgu mewn ysgolion (Llanidloes a Llangefni) ac yn bennaeth Adran y Gymraeg Coleg y Drindod Caerfyrddin rhwng 1952 a 1958, cyn ymuno â Phrifysgol Aberystwyth yn 1958 fel darlithydd mewn addysg lle y gwnaeth waith arloesol ar ddwyieithrwydd ac iaith plant.

Cwblhaodd ei ddoethuriaeth yn 1965 wedi cyfnod yn gweithio fel darlithydd ymchwil ym Mhrifysgol Laval, Québec, Canada, ac ymunodd ag Adran y Gymraeg yn 1966 fel darlithydd, lle y chwyldrodd y ddisgyblaeth drwy gyflwyno'i fyfyrwyr i gyfrinion ysgrifennu creadigol a theori lenyddol.

Credai'n ddiysgog mai gwaredigaeth y Gymraeg oedd denu oedolion o ddysgwyr. Cafodd ei benodi i'r Gadair mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn 1980, gan ymddeol yn 1989.

# Canolfan y Celfyddydau

## Woman of Flowers

**Dydd Mawrth 27 Chwefror**

Cwmni: Theatr Pena / Taliesin Co-production

Gan Siôn Eirian ar ôl Saunders Lewis



Yn 2015 comisiynwyd y dramodydd arobryn Siôn Eirian i ysgrifennu drama Saesneg newydd i'r Cwmni yn tynnu ar ddwy ffynhonnell lenyddol Gymreig eiconig. Yn seiliedig ar hanes Blodeuwedd o'r Mabinogi, mae Siôn wedi cyfuno'n gywrain ddrama enwog Saunders Lewis o'r un enw gyda deunydd gwreiddiol er mwyn creu ail-ddychmygiad barddol trawiadol o chwedl hynafol y ddynes a grewyd o flodau. Mewn byd lle mae duwiau a bodau meidrol yn bodoli ochr yn ochr, mae 'na wrthdrawiad newydd yn codi rhwng y dewin dialgar, sy'n newid siâp, Gwydion, a'i chwaer chwerw a dieithr, y dduwies Arianrhod.  Mae dwy ddynes ddiarddel yn awgrymu gobaith am ddyfodol gwahanol.




# Arddangosfeydd yr Ysgol Gelf

**Tan 16 Mawrth**

Mae Oriel yr Ysgol Gelf ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, rhwng 10am a 5pm. Mynediad am ddim.

## Jane Joseph: Accompaniments

Printiadau a chasgliad personol yr artist o gelfyddyd gain ac addurnol.



*The Open Sea, ysgythriad, o If This is a Man gan Primo Levi, Cymdeithas Folio, 2000*

Dangosir arddangosfa o gyfresi ysgythru Jane Joseph ar gyfer *If This is a Man* Primo Levi a *The Truce* ochr yn ochr â'i chasgliad personol o weithiau gan arlunwyr yn cynnwys Paul Cezanne, Prunella Clough, Edgar Degas, Robert Medley ac Anthony Stevens.

Ysgrifenna, "Rwy'n ymddiddori yn yr hyn mae arlunwyr yn ei greu a'r hyn y maent yn edrych arno. Credaf mai trwy rannu'r olaf y deuwn yn nes at y gwaith y maent yn ei greu. Mae cael gwaith arlunwyr rwy'n eu hedmygu o'm hamgylch yn annog f'ymdrechion fy hun."

## 'To hell with nature': Edrych o'r newydd ar Brintiadau Charles Tunnicliffe

Arddangosfa o brintiadau nad ydynt yn cael eu harddangos yn aml, yn cynnwys gweithiau cynnar, gan yr arlunydd enwog a fu'n byw ar Ynys Môn, Charles Tunnicliffe  RA (1901 - 1979) er mwyn cofnodi cyhoeddiad diweddar yr Academi Frenhinol o gatalog raisonné gan Athro yn yr Ysgol Gelf, Yr Athro Robert Meyrick a Dr Harry Heuser



*The Chartley Bull, engrafiad pren, 1939*